



Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD LLUN, 3YDD MEHEFIN, 2019

Lleoliad

Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 24 Mai 2019)

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Eryl Jones-Williams
Angela Russell

Steve Collings (Eilydd)

Aelodau Lleol

Braich Goch – Y Cynghorydd John Pughe Roberts

Great Breaks, Ceilwart Bungalow - Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

5 - 7

10:30am

BRAICH GOCH RED-ARM, BRAICH GOCH BUNKHOUSE and INN,
CORRIS

I ystyried y cais uchod

5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

8 - 11

1:00pm

GREAT BREAKS LEISURE Ltd, CEILWART BUNGALOW, NORTH
PROMENADE,
ABERMAW, LL42 1BJ

I ystyried y cais uchod

TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:

- 1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2) Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

Eitem 4

| | |
|------------------|--|
| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
| DYDDIAD: | 3 MEHEFIN 2019 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BRAICH GOCH BUNKHOUSE AND INN, CORRIS, MACHYNLLETH, SY20 9RD |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH AMGYLCHEDD |

CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo newydd ar gyfer Braich Goch Bunkhouse and Inn, Corris, Machynlleth, SY20 9RD gan Gwmni Buddiant Cymunedol.

Gwneir y cais mewn perthynas â dangos dramâu a ffilmiau, chwarae cerddoriaeth byw, cerddoriaeth wedi ei recordio, ar ac oddi ar yr eiddo, perfformiadau o ddawns gan gynnwys adloniant arall, cyflenwi alcohol a darparu lluniaeth hwyr y nos. Bwriedir rhedeg yr eiddo fel canolfan addysgiadol, breswyl ac adnodd hanfodol i unigolion a sefydliadau cymunedol.

Mae manylion yr hyn a ofynnir amdano o ran gweithgareddau trwyddedig ac oriau yn y tabl isod, yn ogystal ag yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|--|---|
| Dramau/Plays - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 15:00-22:00 Dydd Mawrth/Tuesday 15:00-22:00 Dydd Mercher/Wednesday 15:00-22:00 Dydd Iau/Thursday 15:00-22:00 Dydd Gwener/Friday 15:00-22:00 Dydd Sadwrn/Saturday 15:00-22:00 Dydd Sul/Sunday 15:00-22:00 |
| Ffilmiau/Films - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 15:00-22:00 Dydd Mawrth/Tuesday 15:00-22:00 Dydd Mercher/Wednesday 15:00-22:00 Dydd Iau/Thursday 15:00-22:00 Dydd Gwener/Friday 15:00-22:00 Dydd Sadwrn/Saturday 15:00-22:00 Dydd Sul/Sunday 15:00-22:00 |
| Cerddoriaeth Fyw/Live Music - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 14:00-23:30 Dydd Mawrth/Tuesday 14:00-23:30 Dydd Mercher/Wednesday 14:00-23:30 |

| | |
|---|---|
| | Dydd Iau/Thursday 14:00-23:30 Dydd Gwener/Friday 14:00-02:00 Dydd Sadwrn/Saturday 14:00-02:00 Dydd Sul/Sunday 14:00-23:30 |
| Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 12:00-23:30 Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:30 Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:30 Dydd Iau/Thursday 12:00-23:30 Dydd Gwener/Friday 12:00-02:00 Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-02:00 Dydd Sul/Sunday 12:00-23:30 |
| Perfformiadau Dawns/Performances of Dance - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 14:00-22:00 Dydd Mawrth/Tuesday 14:00-22:00 Dydd Mercher/Wednesday 14:00-22:00 Dydd Iau/Thursday 14:00-22:00 Dydd Gwener/Friday 14:00-22:00 Dydd Sadwrn/Saturday 14:00-22:00 Dydd Sul/Sunday 14:00-22:00 |
| Adloniant Arall/Other Entertainment - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 14:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 14:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 14:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 14:00-23:00 Dydd Gwener/Friday 14:00-23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 14:00-23:00 Dydd Sul/Sunday 14:00-23:00 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 23:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 23:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 23:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 23:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 23:00-00:00 |
| Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol - Ar yr Eiddo/On Premises | Dydd Llun/Monday 12:00-23:30 Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:30 Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:30 Dydd Iau/Thursday 12:00-23:30 Dydd Gwener/Friday 12:00-02:00 Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-02:00 Dydd Sul/Sunday 12:00-23:30 |

Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Gweithdrefnau rheolaeth gadarn a hyfforddiant staff gan gynnwys gwirio cardiau adnabod, diogelwch personol a thrafod a datrys anghydfodau
- Rheoli y nifer o bobl ar yr eiddo, a peidio a hyrwyddo yfed anghyfrifol

- Cydymffurfio gyda rheoliadau iechyd, diogelwch a than
- Rhaid i blant fod o dan oruchwyliaeth eu rhieni neu warchodwyr, a ni chaniateir ar yr eiddo ar ôl 11yh
- Sicrhau bod y ffilmiau yn addas i'r gynulleidfa, yn unol a dosbarthiad oedran y ffilm
- Monitro lefelau sŵn a lleihau lefelau ar ôl 11yh, gan gynnwys cau ffenestri a drysau

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---------------------------|-----------------------------|
| Heddlu Gogledd Cymru | E-bost – dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Gwynedd Amgylchedd | E-bost – sylwadau ac amodau |
| Cyngor Cymuned Corris | E-bost – gwrthwynebiad |

Gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Corris

Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais yn sgil oriau gwerthu alcohol a cherddoriaeth hyd at 2yb, oherwydd pryderon diogelwch ffyrdd a niwsans sŵn.

Sylwadau Gwarchod y Cyhoedd Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd sylwadau gan Gwarchod y Cyhoedd yn pryderu am yr oriau cerddoriaeth byw ar y cais gwreiddiol. Cytunodd yr ymgeisydd i ostwng yr oriau ar gyfer cyflenwi alcohol, oriau agored i aelodau'r cyhoedd sydd ddim yn preswyllo, oriau cerddoriaeth byw a wedi recordio, a chytundeb na fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae y tu allan i'r eiddo. Cytunodd yr ymgeisydd i dderbyn amodau trwydded pellach wedi nodi yn yr atodiad, megis amodau sŵn, sbwriel a chau'r gardd cwrw.

Cytunodd yr ymgeisydd i'r canlynol yn benodol o ran yr oriau–

- Gwerthiant alcohol i aelodau 'r cyhoedd nad ydynt yn preswyllo hyd at 00:00 llun i Sadwrn a 23:30 dydd Sul
- Bod yn agored i'r cyhoedd hyd at 00:30 Llun i Sadwrn ac 23:30 ar ddydd Sul
- Cerddoriaeth fyw 14:00 tan 23:00 Sul i dydd Iau 14:00 i 00:00 dydd Gwener a Sadwrn
- Cerddoriaeth wedi ei recordio 14:00 tan 23:30 dydd Sul i dydd Iau ac 14:00 i 00:00 Nos Wener a nos Sadwrn
- Dim cerddoriaeth o gwbl mewn manau allanol

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn a dderbyniwyd.

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003. Argymhellir fod y cais yn cael ei ganiatáu yn unol a'r amodau diwygiedig a gytunwyd gyda Gwarchod y Cyhoedd.

Eitem 5

| | |
|------------------|--|
| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
| DYDDIAD: | 3 MEHEFIN 2019 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO – GREAT BREAKS LEISURE LTD, CEILWART BUNGALOW, NORTH PROMENADE, BARMOUTH, LL42 1BJ |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH AMGYLCHEDD |

CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo newydd ar gyfer Great Breaks Leisure Ltd, Ceilwart Bungalow, North Promenade, Barmouth, LL42 1BJ gan Kayleigh Olley o'r un cyfeiriad.

Gwneir y cais mewn perthynas â dangos ffilmiau, cerddoriaeth byw / wedi ei recordio, tu mewn a thu allan yr eiddo, cyflenwi alcohol a darparu lluniaeth hwyr y nos. Bwriedir rhedeg yr eiddo fel llety gwyliau i bobl a theluoedd ag anableddau.

Nodir mai'r bwriad yw cael adloniant megis dangos ffilmiau ac cerddoriaeth fyw yn achlysurol. Bwriedir cynnal gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan, ond gyda adloniant tu allan tan 22:00 yn unig a gwerthiant alcohol ar gyfer ei yfed tu allan tan 23:00 yn unig.

Mae manylion yr hyn a ofynnir amdano o ran gweithgareddau trwyddedig ac oriau yn y tabl isod, yn ogystal ag yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| Ffilmiau/Films - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 10:00-00:30 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00-00:30 Dydd Mercher/Wednesday 10:00-00:30 Dydd Iau/Thursday 10:00-00:30 Dydd Gwener/Friday 10:00-00:30 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00-00:30 Dydd Sul/Sunday 10:00-00:30 |
| Cerddoriaeth Fyw/Live Music - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 10:00-00:30 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00-00:30 Dydd Mercher/Wednesday 10:00-00:30 Dydd Iau/Thursday 10:00-00:30 Dydd Gwener/Friday 10:00-00:30 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00-00:30 Dydd Sul/Sunday 10:00-00:30 |

| | |
|--|--|
| <p>Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors</p> | <p>Dydd Llun/Monday 10:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 10:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 10:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 10:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-00:00</p> |
| <p>Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments - Dan Do/Indoors</p> | <p>Dydd Llun/Monday 23:00-00:30 Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-00:30 Dydd Mercher/Wednesday 23:00-00:30 Dydd Iau/Thursday 23:00-00:30 Dydd Gwener/Friday 23:00-00:30 Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-00:30 Dydd Sul/Sunday 23:00-00:30</p> |
| <p>Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol - Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises</p> | <p>Dydd Llun/Monday 10:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 10:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 10:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 10:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-00:00</p> |

Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Gweithredu system TCC (CCTV)
- Bwriedir cyflogi goruchwylwyr drysau
- Bwriedir hyfforddi staff i wirio cardiau adnabod a chreu polisi gellir staff cyfeirio tuag at
- Bwriedir defnyddio gwydrau plastig tu allan i'r eiddo
- Rheoli y nifer o bobl ar yr eiddo, a hyrwyddo yfed cyfrifol
- Cydymffurfio gyda rheoliadau iechyd, diogelwch a than gyda system taenellwr dŵr wedi osod
- Rhaid i blant fod o dan oruchwyliaeth eu rhieni neu gwarcheidwad
- Monitro lefelau sŵn a chau ffenestri a drysau pan fo'r angen

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|----------------------|--|
| Heddlu Gogledd Cymru | E-bost – dim gwrthwynebiad, ond sylwadau ac amodau |
| Betsi Cadwaladr | E-bost – dim gwrthwynebiad |
| Aelod Lleol | E-bost – gwrthwynebiad |
| Cyngor Tref Abermaw | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Busnes lleol | Llythyr – gwrthwynebiad |

| | |
|--------------------------|--|
| Preswylwyr cyfagos | 21 gwrthwynebiad a 8 e bost yn cefnogi |
| Cynllunio Cyngor Gwynedd | E-bost – sylwadau |

Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru -

Awgrymir gan Heddlu Gogledd Cymru ble mae cyfeiriad at oruchwylwyr drysau yn rhan M (b) o'r cais i ddisodli'r cymal gyda'r amod canlynol:

Bydd yr eiddo yn cyflogi goruchwylwyr drysau ar gyfer digwyddiadau arbennig mewn ymgynghoriad Heddlu Gogledd Cymru.

Sylwadau Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd

Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer lleoli bar o fewn yr eiddo, ond bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd, petai yr adeilad yn agored i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol ar gyfer defnydd megis bar, bwyty neu gaffi.

Gwrthwynebiadau – Trigolion lleol

Cafwyd 21 o lythyrau ac e byst yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o:

- Atal niwsans cyhoeddus
- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Amddiffyn plant rhag niwed

Mae'r gwrthwynebwyr yn cyfeirio at eu pryderon o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cyhoeddus megis sŵn, cerddoriaeth uchel a sbwriel. Cyfeiriwyd hefyd at eu pryderon o gynydd posib mewn trosedd ac anrhefn megis fandaliaeth ac ymddygiad afreolus. Cwestiynwyd cydymffurfriad gyda'r caniatâd cynllunio o ran defnydd yr eiddo. Fe nodwyd pryderon am ddiogelwch y cyhoedd, ac o ran mynediad i wasanaethau brys, oherwydd y rheilffordd cyfagos ag y lon bost cul sydd heb ei oleuo. Crybwyllwyd hefyd fod maes gwerysyla a parc sglefrio yn agos i'r eiddo a fod yn peri risg i plant a bobl ifanc.

Derbyniwyd 3 llythyr wedi arwyddo gyda'r cynnwys yr un peth, a derbyniwyd un llythyr gyda deiseb wedi arwyddo gan 14 o breswylwyr cyfagos.

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn y llythyrau a dderbyniwyd.

Sylwadau a dderbyniwyd yn cefnogi'r cais

Fe dderbyniwyd 8 e bost yn cefnogi y cais; ar y sail fod yr eiddo yn mynd i fod yn adnodd pwysig i unigolion gyda anableddau ac anghenion arbennig a'u teuluoedd a'i gofalwyr. Mae'r sylwebyddion yn credu fod y cais wedi ei gamddechongli – ac nad oes bwriad yma i'r eiddo fod yn dy tafarn neu glwb nos.

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003. Argymhellir fod yr ymgeisydd yn egluro yn llawn i'r Is Bwyllgor y bwriad o ran gweithgareddau

trwyddedig; tu fewn a thu allan yr eiddo; fel y gall penderfyniad gwybodus gael ei wneud ar sail beth yw y gwir fwriad.